TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

HND Public and Emergency Services

Yn gryno

Bydd y cwrs yn rhoi sylfaen gadarn yn ymarferol ac academaidd i chi yn y ffordd caiff y gwasanaethau hyn eu trefnu, rheoli a gweithredu.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Rydych yn dyheu i weithio i'r gwasanaethau argyfwng

... Rydych yn gweithio'n dda o dan bwysau

... Rydych am gael sgiliau theori ac ymarferol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Rydym yn dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau brys, nid yn unig ar gyfer trychinebau mawr fel tsunamis a daeargrynfeydd, ond hefyd ar gyfer pryderon mwy lleol, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymuned. Yn aml, mae'r gwasanaethau brys yn

cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill i gynllunio ar gyfer argyfyngau, fel ymosodiad terfysgol neu geisio datrys problemau cymhleth ac anodd.

I sicrhau bod gennych ddealltwriaeth dda o sut mae gwasanaethau brys a chyhoeddus yn gweithredu, byddwch yn astudio sawl modiwl craidd lle byddwch yn ennill sgiliau ymarferol ac yn rhoi eich sgiliau arwain ar waith ar daith ym Mannau Brycheiniog neu rywle cyfagos.

I wneud eich dysgu yn berthnasol i'r gweithle, byddwch yn cael enghreifftiau go iawn o faterion perthnasol. Er enghraifft, mewn un modiwl bydd gennych y dasg o nodi sut i ysgogi a rheoli pobl yn y sector cyhoeddus. Mewn un arall, byddwch yn gweld sut y gall deddfwriaeth a newidiadau mewn cymdeithas effeithio ar y ffyrdd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu.

Byddwch yn dysgu trwy amrywiaeth o ddulliau, fel arfer cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a gweithdai. Ar gamau diweddarach y cwrs, cewch gyfle i weithio ar brosiectau, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Mae gweithgareddau allanol hefyd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen, yn ogystal â siaradwyr gwadd a gwaith prosiect. Mae amrywiaeth o ddulliau asesu ac er bod y rhan fwyaf o fodiwlau wedi'u seilio ar waith cwrs, bydd yna rhai arholiadau. Mae gwaith cwrs yn cynnwys prosiectau bywyd go iawn, traethodau, gwaith grwp a chyflwyniadau.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael eich derbyn ar y cwrs, bydd angen o leiaf tri TGAU Gradd C neu uwch arnoch gan gynnwys Mathemateg / Mathemateg Rhifedd ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth), yn ogystal â:

48 pwynt UCAS - Cyfrifiannell tariff UCAS
https://www.ucas.com/ucas/tariff-calculator
Mynediad i AU lle rydych chi wedi cyflawni Diploma Llwyddo gyda 45 Pas

Sylwch, os nad ydych yn cwrdd â'r meini prawf gradd, yna efallai y gellir ystyried oedran a phrofiad

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r cwrs hwn yn gymhwyster gwerthfawr os ydych chi eisiau dilyn gyrfa yn yr heddlu, y gwasanaeth tân neu ambiwlans, y lluoedd arfog, gwasanaethau carchar a diogelwch, Tollau Tramor a Chartref EM, neu sefydliadau gwasanaeth cymunedol. Gallwch hefyd symud ymlaen i flwyddyn olaf y radd BA (Anrh) Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhrifysgol De Cymru

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Cyflwynir y cwrs hwn dros ddau ddiwrnod, ac fe'i rhyddfreinir gan Brifysgol De Cymru (yn amodol ar ddilysiad).

Y cod UCAS yw: 534L

Bydd angen i chi hefyd brynu'r cit canlynol i ddilyn eich cwrs:

Esgidiau cerdded, £40, gofynnol
Dillad-gwrth ddwr, £40, gofynnol
Sach sy'n dal hyd at 10 litr, £10, gofynnol